

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus  
Working together to make the best use of the public estate




## Rhifyn 3

# Croeso i gylchlythyr cyntaf Ystadau Cymru yn 2021

Mae wedi bod yn gyfnod anodd ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i oedi a gweld y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda lansiad llwyddiannus Gwobrau cyntaf YC

--- Newyddion pwysig YC ---



**Gwobr Creu Twf Economaidd a Phrif  
Wobr Ystadau Cymru 2020 yn mynd i:**

## **The Goodsheds**

**Mae'r wobwr cyflawniad eithriadol  
yn mynd i:**

Gyngor Bro Morgannwg a fu'n gweithio  
mewn partneriaeth â DS Properties  
a Chymdeithas Dai Newydd

Mae "The Goodsheds" yn cael sylw  
ar dudalen 9.

# Cynnwys

Sylw i'r Gynhadledd Ystadau Cymru	4
Gwobrau Ystadau Cymru 2020 – ein Henillwyr	5
Erthygl nodwedd – Enillydd Prif Wobr Ystadau Cymru 2020!	9
Cymeradwyaeth Arbennig	10
Diweddariad ar weithio o bell	10
Erthygl wadd gan CIPFA, David Ayre – Diploma mewn Rheoli Asedau'r Sector Cyhoeddus	11
Cydweithio â'r Ministry of Furniture	12
Mae angen eich help ar gylchlythyr Ystadau Cymru!	12
Adnoddau Defnyddiol	12
Canllaw Dylunio'r Gweithle – Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth	12
Lles yn y gweithle yn ystod COVID-19, gan CIPD	12

# Neges gan y Cadeirydd, Umar Hussain MBE



Mae 2020 wedi cael effaith aruthrol ar fywydau pawb sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac yng nghanol yr holl bethau negyddol, daeth y gynhadledd flynyddol a'n seremoni wobrwyo gyntaf ag ychydig o oleuni i'r tywyllwch.

Roedd cynhadledd wobrwyo a seremoni wobrwyo Ystadau Cymru yn gyfle inni weld enghreifftiau gwych o gydweithio eithriadol rhwng cydweithwyr ar draws ystad y sector cyhoeddus. Roedd y gwobrau, yn benodol, yn gyfle inni gael gweld prosiectau enghreifftiol ar reoli eiddo sydd wedi cael eu cyflawni ar y cyd gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yng Nghymru. Maent wedi dangos bod y sectorau hynny'n cael cryn hwyl ar gydweithio a'u bod yn rhoi lle canolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y bo modd gwneud gwell defnydd o ystad y sector cyhoeddus.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith eich bod wedi ymrwymo i'r weledigaeth o wneud y defnydd gorau o'r ystad gyhoeddus yng Nghymru ac i flaenraglen waith Ystadau Cymru, a'ch bod hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o wireddu'r weledigaeth honno. Gobeithio y bydd cylchlythyr y gaeaf o ddiddordeb ichi ac y byddwch yn mwynhau'r wybodaeth eang sy'n cael ei rhannu ynddo. Yn ôl ein harfer, byddem yn croesawu unrhyw adborth ar sut y gallwn fynd ati i wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â chi.

# Cynhadledd Ystadau Cymru 2020

Cynhaliwyd yr ail gynhadledd flynyddol ar-lein ar 3 Rhagfyr 2020 ac yn ystod y prynhawn, cynhaliwyd Gwobrau cyntaf Ystadau Cymru lle buom yn dathlu llwyddiannau'n cydweithwyr wrth iddynt fynd ati i gydweithredu ac i gydweithio. Croesawyd pawb gan Tom Bowring, Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg. Dyma rai o'r sesiynau:

## Cydweithio ar COVID-19

Cyflwynwyd y sesiwn gyntaf gan Rod Taylor, Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rhoddodd gipolwg gwerthfawr i'r cynrychiolwyr ar rôl asedau a chydweithredu yn yr ymateb i bandemig COVID-19, ac roedd y gwaith hanfodol a wnaed yn cynnwys:

- Nodi safleoedd allweddol ac adolygu asedau ledled Gogledd Cymru.
- Cytuno ar leoliadau ar gyfer tri Ysbyty Enfys.
- Rhaglen casglu adnoddau ac adeiladu ar gyfer yr ysbytai.
- Trosglwyddo adeiladau i dimau rheoli cyfleusterau.

Roedd y prosiect yn dangos pa mor gryf yw Gogledd Cymru pan fyd yn cydweithio fel rhanbarth, gan rannu'r gwaith llywodraethu, y risg a'r dysgu.

Tynnodd Dr Giri Shankar sylw at yr hyn a ddysgodd o'i brofiadau fel Cyfarwyddwr Digwyddiadau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dangosodd yn ei gyflwyniad sut roedd cydweithredu'n caniatáu i ofal iechyd hanfodol barhau, ac ymateb i COVID-19 ar yr un pryd, wrth i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r fyddin fynd ati'n gyflym i gydweithio.

Tynnodd sylw at y rôl allweddol yr oedd cydweithredu wedi'i chwarae ac at sut yr aed ati i oresgyn y rhwystrau lu a oedd wedi codi – rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl yn y byd cyn COVID-19.

## Cynllunio strategol ar gyfer y dyfodol

Yn ystod y sesiwn hon, cafodd y cynrychiolwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ystadau sy'n cael ei wneud o fewn Llywodraeth Cymru:

- Cynlluniau'r Is-adran Tir i ddatgloi'r potensial i gyflymu'r gwaith o ddefnyddio a datblygu asedau cyhoeddus er budd polisi cyhoeddus.
- Cyflwyno gweithio o bell oherwydd COVID-19 a gosod nod o weld 30% o'r gweithlu'n gweithio mewn man heblaw swyddfa draddodiadol yn y dyfodol, gan roi blaenoriaeth allweddol i hybiau gweithio lleol.
- Ystyried sut y gellir ailgynllunio trefi mewn ffordd sy'n cyfuno hamdden, dysgu, byw a gweithio. Ailfeddwl am sut y mae canol llawer o'n trefi a'n prif strydoedd ynn cael eu dylunio a'u cynllunio.
- Ysgolion a cholegau'r 21ain Ganrif, rhaglen uchelgeisiol o adeiladu ysgolion lle mae cyfanswm y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi yn fwy na £3.7 biliwn. Bydd yr ysgol ddi-garbon net gyntaf yn cael ei hadeiladu cyn hir hefyd.

## Sector Cyhoeddus Di-garbon 2030

Cyflwynwyd sesiwn olaf y bore gan dîm Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru yng nghwmni'r siaradwr gwadd Keith Jones, Arbenigwr Cenedlaethol ar y Newid yn yr Hinsawdd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Aed ati yn ystod y sesiwn i amlinellu'r daith at ddefnydd tir ac adeiladau di-garbon. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy'n gosod y sylfaen ar gyfer newid i genedl carbon isel.

[llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf)

# Gwobrau Ystadau Cymru 2020

Yn ystod y prynhawn, lansiodd Gwobrau cyntaf Ystadau Cymru gan Umar Hussain, Cadeirydd Ystadau Cymru, i ddathlu'r cydweithredu rhagorol a welwyd rhwng cyrff cyhoeddus, y trydydd sector a chyrrff preifat o fewn ystad y sector cyhoeddus

Dangosodd pob un o'r ugain ymgeisydd llwyddiannus sut yr oeddent wedi cydweithio â phartneriaid allweddol i wneud y defnydd gorau o ystad y sector cyhoeddus, gan sicrhau

bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i'r prosiectau. Dangosodd pob un fod y pum ffordd o weithio yn rhan annatod o'r ffordd yr eir ati i gynllunio prosiectau. Gwnaeth yr holl brosiectau argraff dda ar y paneli beirniadu, a nodwyd bod cwmpas y ceisiadau'n eang a'u bod yn amrywio o ran maint.

Roedd pum categori, a chafwyd ceisiadau o ansawdd uchel ym mhob un ohonynt. Rydym yn falch iawn o gael cyflwyno'n henillwyr newydd!

## Arddangos Cynaliadwyedd Amgylcheddol ENILLYDD

### Prosiect Ynni Cymunedol

#### Cyngor Dinas Casnewydd ac Egni Co-operative Ltd

Mae'r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Cyngor Dinas Casnewydd ac Egni Co-operative Ltd, Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Ynni), Cymunedau Cynaliadwy Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru, a'i nod yw darparu nifer o gynlluniau ynni solar ar y to ar draws ystad y Cyngor.

Mae Egni, y partner arweiniol, wedi denu buddsoddiad newydd i economi Cymru ac wedi creu swyddi newydd. Erbyn hyn, mae'r prosiect wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi gylchol yng Nghymru drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cafodd y paneli solar eu hariannu drwy fenthyciad oddi wrth Fanc Datblygu Cymru a thrwy'r cyfrannau sy'n cael eu cynnig gan Egni, sydd, hyd yn hyn, wedi codi £1.97 miliwn.

Gwnaeth graddfa enfawr y prosiect a'r ffordd arloesol o'i ariannu gryn argraff ar y panel beirniadu. Mae Egni wedi ymrwmo i ddatblygu rhaglen addysg arbenigol sy'n tynnu sylw at fanteision paneli solar, ynni adnewyddadwy a'r model busnes sy'n cael ei ddefnyddio gan gwmnïau cydweithredol. Mae holl ysgolion Casnewydd bellach yn aelodau o Brosiect Egni ac maent wedi cael gwerth £500 o gyfrannau yn rhad ac am ddim, sy'n rhoi ffrwd incwm fach iddynt o'r ynni solar sy'n cael ei gynhyrchu. Ond yr agwedd bwysicaf yw'r ffaith bod y cynllun yn codi ymwybyddiaeth am sut y gall cydweithredu helpu i ysgogi newid amgylcheddol.



# Darparu Gwasanaethau Mwy Integredig

## ENILLYDD

**Canolfan Gofal Integredig Aberaeron  
Partneriaeth rhwng Cydwasanaethau GIG Cymru,  
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol NWSSP a Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Ceredigion,  
Llywodraeth Cymru, Practis Meddygon Teulu Tanyfron,  
Porth Gofal, Cymdeithas Tai Wales and West**

Cafodd swyddfeydd gwag eu newid yn gyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer cymunedau lleol yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru. Dyma'r cyfleuster cyntaf o'i fath yn yr ardal. Roedd yn brosiect cydweithredol cymhleth, a llwyddwyd hefyd i ddatblygu tai fforddiadwy mewn rhan o'r adeilad.

Roedd y panel yn synnu at faint o bartneriaid a oedd wedi llwyddo i gydweithio ar y prosiect hwn i greu cyfleuster iechyd a lles cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned, yn ogystal â thai fforddiadwy. Mae'n enghraifft o sut y dylid darparu gwasanaethau o'r fath yn y dyfodol.

Gwnaed defnydd da o bolisi hefyd drwy fabwysiadu'r Protocol Trosglwyddo Tir a Phrotocol Tai Fforddiadwy'r GIG. Mae'r telerau meddiannu sydd wedi'u cynnig i'r practis meddygon teulu yn rhai hyblyg, ac mae hynny'n golygu bod llai o risg bersonol i bartneriaid y feddygfa. Mae telerau'r les yn cynnwys darpariaethau aseinio a chymalau terfynu haws er mwyn helpu i roi sefydlogrwydd i'r practis a'i helpu i fod yn gynaliadwy.

[pcgc.gig.cymru/nwssp-latest-news-items/tim-gwasanaethau-ystadau-arbenigol-yn-dathlu-ennill-gwobrau-cyntaf-ystadau-cymru/](https://pcgc.gig.cymru/nwssp-latest-news-items/tim-gwasanaethau-ystadau-arbenigol-yn-dathlu-ennill-gwobrau-cyntaf-ystadau-cymru/)



# Lleihau Costau Rhedeg Ystadau

## ENILLYDD

### Gweithio ystwyth a Masnacheiddio'r Ganolfan Ddinesig Cyngor Abertawe, Ministry of Furniture Ltd, Green Stream, y Swyddfa Brisio, yr Awdurdod Rheoli Gwybodaeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Llwyddodd Cyngor Abertawe i arbed symiau sylweddol o arian cyhoeddus wrth weddnewid, adnewyddu ac ailgylchu swyddfeydd i greu gweithle ystwyth a chydweithredol – gan arloesi mewn ffordd drawiadol ym maes Rheoli Asedau. Yr ystyriaeth bennaf wrth wneud y penderfyniad i weddnewid y swyddfeydd oedd yr angen i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac i gydweithio.

Gan gofio'r cyfyngiadau ar y gyllideb a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yr Awdurdod, aeth Cyngor Abertawe ati, ar y cyd â menter gymdeithasol lleol a Phrifysgol Abertawe, i chwilio am ffyrdd arloesol o aildddefnyddio'r dodrefn, gan greu amgylchedd swyddfa newydd drwy uwchgylchu/ailgylchu dodrefn.

Roedd sawl rhan wahanol i'r prosiect arbennig hwn, ac roedd y dull gweithredu strategol, a oedd am sicrhau effeithlonrwydd a ffyrdd newydd o weithio,

yn un a greodd gryn argraff ar y beirniaid. Roedd yn gam penderfynol tuag at weithio mewn ffordd ystwyth. Dyma rai o'r agweddau ar y prosiect:

- Lesio rhannau o'r Ganolfan Ddinesig er mwyn creu incwm rhenti sylweddol i'r cyngor ac arbed costau.
- Ad-drefnu asedau, trawsnewid swyddfeydd a chyflwyno staff i weithio ystwyth.
- Adnewyddu ac uwchgylchu dodrefn a charpedi mewn partneriaeth gydweithredol â mentrau cymdeithasol lleol.

Er mai'r sbardun ar gyfer y categori hwn oedd lleihau costau, teimlai'r panel fod Cyngor Abertawe yn rhagori oherwydd bod y prosiect yn un cymhleth a oedd nid yn unig yn dod â nifer o gyrff cyhoeddus a mentrau cymdeithasol ynghyd, ond a oedd hefyd yn dod â budd ychwanegol drwy gynyddu incwm.



# Prosiect Gwerth Gorau am Arian

## WINNER

### Ymateb i Bandemig COVID-19 Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, holl Fyrddau Iechyd GIG Cymru, Holl Awdurdodau Lleol Cymru, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân

Prosiect ar y cyd oedd hwn dan arweiniad Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, a'r nod oedd ymateb i'r gofynion a ddaeth i'r amlwg yn sgil pandemig COVID-19, gan fynd i'r afael â sefyllfa unigryw yn gyflym iawn.

Cynyddwyd cynhyrchiant 700% er mwyn creu un ateb caffael, er mwyn gwella rhwydweithiau storio a thrafnidiaeth, cyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE), darparu gwasanaethau bob awr o'r dydd, darparu gwasanaethau profi a sicrhau bod meddyginiaethau lliniarol brys yn cael eu cyflenwi.

Llwyddwyd i sicrhau gwerth am arian drwy weithredu ar sail 'Unwaith dros Gymru'. Nid yw Cymru erioed wedi bod mewn sefyllfa lle nad oedd PPE ar gael, a sicrhawyd bod eitemau i ddiogelu'n staff rheng flaen ar gael i'r sector cyhoeddus. Teimlai'r panel beirniadu fod y prosiect yn glir ar y blaen a'i fod yn eithriadol.



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

**Partneriaeth  
Cydwasaethau  
Gwasanaethau Caffael**

**Shared Services  
Partnership  
Procurement Services**



# Erthygl Nodwedd

## Enillydd Prif Wobr

### Ystadau Cymru 2020!

Mae cylchlythyr YC yn falch iawn o gyhoeddi bod “The Goodsheds” nid yn unig wedi ennill y **categori Creu Twf Economaidd** ond hefyd y prif wobwr ar draws yr holl gategorïau, **Gwobr Prosiect Orau Ystadau Cymru**, a gyhoeddwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wrth iddi draddodi'r prif anerchiad.

Roedd yr sied nwyddau hanesyddol lleol a'i safle lled adfeiliedig yn un o'r asedau nad oedd y Cyngor yn defnyddio digon arno. Nid oedd yn cyfrannu fawr ddim i'r economi leol ond roedd o gryn bwysigrwydd hanesyddol i'r Barri.

Unwaith yr oedd y Prif Gynllun Arloesi yn ei le, roedd y Cyngor yn awyddus i weld y sied nwyddau yn cael ei thrawsnewid a'r ardal gyfagos yn cael ei gwella. Gan fod arian cyhoeddus yn brin, roedd angen iddynt weithio gyda buddsoddwr preifat oedd â'r sgiliau a'r arbenigedd priodol i ddarparu cynllun defnydd cymysg a fyddai'n seiliedig ar egwyddorion **gweithio, byw a chwarae**. Priodolir llwyddiant y prosiect i'r cydweithredu a welwyd, ac i'r ffaith bod y Cyngor wedi cydweithio'n agos â DS Properties, Cymdeithas Tai Newydd a Llywodraeth Cymru.

Dyma'r hyn y gyflawnwyd gan y prosiect:

**Sied Nwyddau/Pentref o Gynwysyddion Llongau** – prosiect £3.9 miliwn i newid hen sied nwyddau rheilffordd o'r 1880au ac adeiladu pentref gan ddefnyddio cynwysyddion llongau/cerbydau rheilffordd.

**Junction House** – gwaith gwerth £4.8 miliwn i adeiladu bloc o 42 o fflatiau preswyl (sy'n cynnwys cymysgedd o gartrefi fforddiadwy a chartrefi preifat ar rent), ar gyfer Cymdeithas Tai Newydd.

Ystyriwyd mai Goodsheds oedd un o'r prosiectau mwyaf uchelgeisiol a'i fod yn enghraifft wych o gydweithio go iawn rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gynnig gwerth cyhoeddus mewn sawl ffordd wahanol. Mae rhagor o fanylion i'w gweld isod am y prosiect a enillodd ein gwobr gyffrous:

[www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our\\_council/press\\_and\\_communications/latest\\_news/2020/December/Goodsheds-development-scoops-double-award.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/press_and_communications/latest_news/2020/December/Goodsheds-development-scoops-double-award.aspx)

[www.newydd.co.uk/stories/tenantiaid-yn-symud-i-mewn-i-gartrefi-arobryn-goodsheds](http://www.newydd.co.uk/stories/tenantiaid-yn-symud-i-mewn-i-gartrefi-arobryn-goodsheds)



# Canmoliaeth Arbennig

Rydym hefyd yn falch o gael dweud bod y beirniaid wedi rhoi canmoliaeth arbennig i brosiectau a oedd yn enghreifftiau rhagorol o gydweithio.

**Ysgol Parc y Tywyn –  
Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Parc y Felin –  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Cyfleuster Gwasanaethau Brys Llanilltud Fawr –  
Heddlu De Cymru**

**Prosiect Dodrefnu Rhanbarth y Dwyrain –  
Heddlu Gogledd Cymru**

## Diweddariad ar weithio o bell

Cafodd cyfarfod Ystadau Cymru ar gyfer Cadeiryddion ei gynnal ar 7 Ionawr ac mae'n profi'n ffordd effeithlon o ddod â thimau asedau'r sector cyhoeddus ynghyd. Mae pob rhanbarth wrthi'n cynnal adolygiad o'i ystad bresennol ac mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys:

- cadarnhau faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o adeiladau.
- nodi lle mae angen asedau.
- a yw adeiladau'n addas i'r diben.
- cyfleoedd i gydweithio ac i resymoli.

Mae ystod eang o weithgareddau'n cael eu cynnal, ac mae'r rheini'n cael eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd Gweithio o Bell.

Mae rhai rhanbarthau wedi nodi safleoedd allweddol ar gyfer cydweithredu/rhannu adeiladau er mwyn helpu i resymoli'r ystad

bresennol. Yn eu plith y mae Tŷ Penallta yng Nghaerffili, Canolfan Ddinesig Abertawe a safle yn Abergele, i enwi dim ond ychydig ohonynt. Mae trafodaethau a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda phartneriaid posibl wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'n amlwg bod awydd i gyd-leoli.

Yn hytrach na threialu un adeilad lle gall sawl sefydliad rannu mannau gwaith, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi troi ei sylw bellach at greu ffordd o alluogi a chefnogi rhwydwaith o leoedd a fydd yn caniatáu i bobl barhau i weithio'n agosach i'w cartrefi. Cyhoeddodd Town Square bapur ymchwil, "What if everyone could walk to work", a oedd yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod rhaglen y Town Square Club. Arweiniodd hynny at lansio ymgyrch Boot the Commute.

**[thetownsquare.co.uk/news/its-time-to-boot-the-commute/](https://thetownsquare.co.uk/news/its-time-to-boot-the-commute/)**

# Lansio Diploma ym maes Rheoli Asedau'r Sector Cyhoeddus



A hithau'n adeg o newid na welwyd ei debyg o'r blaen, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn rheoli asedau yn y sector cyhoeddus. Boed yn ffyrdd newydd o weithio yn ystod y cyfyngiadau symud, yn waith i edrych ar bortffolios eiddo er mwyn paratoi ar gyfer byd ar ôl COVID, yn adfywio canol trefi ac economïau lleol, neu'n ymateb i'r argyfwng tai, mae gan reolwyr asedau'r sector cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae.

Ni allai wedi bod yn adeg mwy priodol i lansio Diploma newydd ym maes Rheoli Asedau'r Sector Cyhoeddus. Darperir y Diploma gan CIPFA Property a Chymdeithas y Prif Syrfeyr Ystadau (ACES). Gan ddechrau ym mis Medi 2020, dilynwyd y 7 Modiwl, a gyflwynwyd ar ffurf gweminarau, gan 31 o swyddogion a oedd yn cynrychioli amrywiaeth eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus o bob rhan o'r DU. Fe'u dilynwyd hefyd gan dri chynrychiolydd o Sefydliad Rhyngwladol Prif Sefydliadau Archwilio Affrica a phedwar swyddog a oedd yn cynrychioli llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru.

## Y Modiwlau

Mae'r saith modiwl yn tywys y cynrychiolwyr ar daith drwy'r broses rheoli asedau, gan ddechrau gyda datblygu polisi a strategaeth rheoli asedau; gan fynd ymlaen wedyn at arfarnu opsiynau; datblygu achosion busnes; prosiectau cyfalaf a chynnal a chadw; data a pherfformiad; eiddo gweithredol ac anweithredol, yn ogystal â'r heriau sy'n wynebu rheolwyr asedau heddiw.

Cynigir dewis o ddau ddyddiad i'r cynrychiolwyr ar gyfer pob modiwl ac maent yn gwneud prawf ar-lein ar ddiwedd pob modiwl. Dyfernir y Diploma i gynrychiolwyr sy'n cyrraedd y marc pasio ar gyfer pob modiwl ac sy'n cwblhau traethawd 3,000 gair. Mae'r cwrs ar gael i'r rheini sydd am ennill cymhwyster mewn rheoli asedau yn y sector cyhoeddus, neu gall cynrychiolwyr sydd am eu hatgoffa'u hunain a mireinio'u sgiliau ddewis dilyn un neu fwy o'r modiwlau.

## Poblogrwydd Cynyddol

Bydd yr ail garfan sy'n dilyn y Diploma yn dechrau ar eu hyfforddiant ym mis Ionawr, a byddant yn cwblhau'r cwrs yn yr haf. Mae'r garfan yn cynnwys 36 o gynrychiolwyr o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Llywodraeth Jersey ac Ynysoedd Scilly, a bydd cynrychiolwyr o Weriniaeth Iwerddon yn ymuno â nhw. Yn ogystal â chynrychiolwyr llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, mae cynrychiolaeth hefyd o sawl Ymddiriedolaeth GIG.

Mae archebion yn dal i gael eu cymryd ar gyfer yr ail garfan ac mae modd hefyd archebu lle yn y 3ydd carfan a fydd yn dechrau ym mis Medi 2021. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CIPFA ar:

[www.cipfa.org/training/accredited-training/diploma-in-public-sector-asset-management](http://www.cipfa.org/training/accredited-training/diploma-in-public-sector-asset-management)

Dave Ayre – Rheolwr Rhwydweithiau Eiddo, CIPFA Property

## Cydweithio â'r Ministry of Furniture

Mae swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mhlas Caerw yn Nantgarw wedi cau'n swyddogol erbyn hyn a threfnwyd bod Ministry of Furniture Ltd yn cael gwared ar:

- 151 o ddesgiau a fydd yn cael eu cludo i ffatri'r MoF er mwyn cael eu haddasu at ddibenion eraill.
- 140 o gadeiriau a fydd yn cael eu hanfon i'w hailgylchu.
- 300 o bedestalau a fydd yn cael eu hanfon i'w hailgylchu.

- 150 o unedau tabwrdd a fydd yn cael eu hanfon i'w hailgylchu.

Bydd desgiau o ganolfan QED yn cael eu hailddefnyddio hefyd, gan fynd i swyddfa Llandrindod.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am Ministry of Furniture Ltd drwy glicio ar y ddolen isod, ac mae fideo ar gael hefyd ar Ministry TV sy'n dangos y gwaith a wnaed i greu gweithle ystwyth, cydweithredol yng Nghyngor Abertawe drwy adnewyddu ac ailgylchu.

[www.ministryoffurniture.com/](http://www.ministryoffurniture.com/)

## Mae angen eich help ar gylchlythyr Ystadau Cymru!



Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwaith rhagorol ein partneriaid yn Ystadau Cymru drwy gydol 2021 ac rydym am glywed oddi wrthyh.

Boed yn brosiect mawr neu bach, gallem lunio erthygl a fyddai'n rhoi sylw i'ch gwaith, a byddem hefyd yn croesawu syniadau am yr hyn a fyddai o ddiddordeb i chi.

Mae'r pandemig yn parhau i'n herio, ond erbyn yr hydref, mae gobaith y bydd cynhadledd Ystadau Cymru 2021 yn gallu dathlu prosiectau cydweithredu llwyddiannus ledled Cymru unwaith eto.

Cysylltwch â'r tîm drwy  
[YstadauCymru@llyw.cymru](mailto:YstadauCymru@llyw.cymru)

## Adnoddau Defnyddiol

### A. Canllaw ar Ddylunio'r Gweithle

Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Canllaw ar Ddylunio'r Gweithle sy'n pennu safonau newydd ar gyfer creu gweithleoedd gwyd, gan gynnwys creu hybiau. Datblygwyd deg dangosydd, sy'n seiliedig ar ddylunio ac ar brofiad. er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i weithwyr ac i sefydliadau. Gweler y ddolen isod.

[www.gov.uk/government/organisations/government-property-agency](http://www.gov.uk/government/organisations/government-property-agency)

### B. Lles yn y gweithle yn ystod COVID-19

Taflenni ffeithiau defnyddiol ar iechyd a diogelwch statudol ond hefyd ar sut i sicrhau bod gweithwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd gwaith ar ôl iddo newid. Mae adran ar ddatblygu cynllun adnoddau hyblyg.

[www.cipd.co.uk/knowledge/fundamentals/emp-law/health-safety/coronavirus-factsheet](http://www.cipd.co.uk/knowledge/fundamentals/emp-law/health-safety/coronavirus-factsheet)